



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2007 Rhif 2425 (Cy. 201)

2007 No. 2425 (W.201)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Crynodaau Anifeiliaid
(Cymru) 2007**

**The Animal Gatherings (Wales)
Order 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu, gyda diwygiadau, Orchymyn Crynodaau Anifeiliaid (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1803 (Cy.191)). Mae'r diwygiadau fel a ganlyn.

This Order revokes and re-enacts, with amendments, the Animal Gatherings (Wales) Order 2004 (S.I. 2004/1803 (W.191)). The amendments are as follows.

Yn gyntaf, pan na fo cyfres o grynodaau anifeiliaid, sy'n cael eu cynnal ar fangre â man palmantog i anifeiliaid, yn para'n hwy na chyfanswm o 48 awr, caiff y crynodaau hynny eu trin fel un crynhoad anifeiliaid (erthygl 7(6)). Yn ail, mae erthygl 8 yn darparu y caiff trwyddedai wneud cais i Weinidogion Cymru ganiatáu i ddefaid mewn arwerthiant defaid magu yn yr hydref gael mynd i fannau y tu allan i'r man palmantog i anifeiliaid ac i gael caniatâd i gynnal crynodaau pellach o anifeiliaid o fewn 27 niwrnod i'r arwerthiant hwnnw o ddefaid magu yn yr hydref. Yn drydydd, mae paragraff 1(2) o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai ddarparu cyfleusterau ar gyfer gwaredu llaid, tom a halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid oddi ar esgidiau, yn ogystal â darparu baddonau traed. Mae paragraff 3 o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n ymadael â'r man i anifeiliaid ddefnyddio'r cyfleusterau hynny cyn defnyddio'r baddon traed sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwywyd. Yn bedwerydd, mae paragraff 2(1) o'r Atodlen yn darparu na chaiff unrhyw berson fynd i mewn i fangre drwyddedig gyda dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi'u halogi â llaid, yn ychwanegol at ddom anifeiliaid neu unrhyw halogydd anifeiliaid arall a bennwyd yng Ngorchymyn 2004.

First, where a series of animal gatherings that are held on premises with a paved animal area last no longer than 48 hours in total, those gatherings will be treated as one animal gathering (article 7(6)). Secondly, article 8 provides that a licensee may apply to the Welsh Ministers to allow sheep at a sheep autumn breeding sale to have access to areas outside the paved animal area and for permission to hold further animal gatherings within 27 days of that sheep autumn breeding sale. Thirdly, paragraph 1(2) of the Schedule requires the licensee to provide facilities for removing mud, excreta and other contaminants from animals from footwear, in addition to providing footbaths. Paragraph 3 of the Schedule requires any person leaving the animal area to use those facilities before using the footbath containing approved disinfectant. Fourthly, paragraph 2(1) of the Schedule provides that no person may enter licensed premises with outer clothing or footwear that is visibly contaminated with mud, in addition to animal excreta or any other animal contaminant specified in the 2004 Order.

Mae erthygl 4 yn darparu na fydd y Gorchymyn hwn yn gymwys os yw'r holl anifeiliaid y deuir â hwy i grynhoad anifeiliaid ym mherchenogaeth yr un person ac yn dod o fangre a awdurdodir fel grŵp meddiannaeth unigol o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966 (Cy.211)) ac os crynhoir yr anifeiliaid ar fangre y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arni neu'n ei meddiannu.

Mae erthygl 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gael trwydded ar gyfer crynodaau anifeiliaid. Mae erthygl 6 yn pennu y gellir cynnal crynhoad anifeiliaid dim ond 27 o ddiwrnodau neu fwy ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre honno a bod y fangre honno wedi'i glanhau a'r cyfarpar hwnnw ar y fangre wedi'i lanhau o halogiad gweladwy. Os ar fangre balmantog y cynhelir y crynhoad, mae erthygl 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer glanhau a diheintio'r fangre honno ac yn caniatáu cynnal crynhoad o fewn y terfynau amser arferol. Mae erthygl 9 yn gosod terfyn amser o 48 awr ar grynodaau anifeiliaid at ddibenion gwerthiant ar fangre balmantog ac arwerthiannau defaid magu yn yr hydref a llwythi sy'n cael eu traddodi ymlaen ar unrhyw fangre. Mae erthygl 12 a'r Atodlen yn gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n mynd i grynhoad anifeiliaid. Mae erthygl 13 yn gosod cyfyngiadau yn dilyn crynhoad anifeiliaid. Mae erthygl 14 yn ymdrin â gorfodi.

Mae torri'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac yn dwyn cosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi a gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Article 4 provides that this Order does not apply if all the animals brought to an animal gathering are owned by the same person and come from premises authorised as a sole occupancy group under the Disease Control (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/1966 (W.211)) and if the gathering takes place on premises owned or occupied by the owner of the animals.

Article 5 requires a licence for animal gatherings. Article 6 specifies that an animal gathering can only take place 27 days or more after the last animal left those premises and those premises and equipment on the premises has been cleaned of visible contamination. If the gathering takes place on paved premises, article 7 makes provision for the cleansing and disinfection of those premises and enables a gathering to take place inside the normal time limits. Article 9 imposes a 48 hour time limit on animal gatherings for the purpose of sale on paved premises and sheep autumn breeding sales and onward consignments on any premises. Article 12 and the Schedule impose duties on persons attending an animal gathering. Article 13 imposes restrictions following an animal gathering. Article 14 deals with enforcement.

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

A regulatory impact assessment has been prepared and copies can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2007 Rhif 2425 Cy.201)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid
(Cymru) 2007**

Wedi'i wneud

14 Awst 2007

Yn dod i rym

14 Awst 2007

CYNNWYS

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Hysbysiadau a thrwyddedau
4. Eithriadau
5. Defnyddio mangreoedd ar gyfer crynadau anifeiliaid
6. Cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gynnal crynhoad anifeiliaid
7. Esemptiad ar gyfer mangre sydd â man palmantog i anifeiliaid
8. Esemptiad ar gyfer arwerthiannau defaid magu yn yr hydref
9. Terfynau amser
10. Newid ar amser dechrau crynadau anifeiliaid at ddibenion gwerthu
11. Gwerthiant cigydda dynodedig a chasgliadau cigydda dynodedig
12. Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid
13. Cyfyngiadau yn dilyn crynhoad anifeiliaid
14. Gorfodi
15. Dirymu

2007 No. 2425 (W.201)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Animal Gatherings (Wales)
Order 2007**

Made

14 August 2007

Coming into force

14 August 2007

CONTENTS

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Notices and licences
4. Exceptions
5. The use of premises for animal gatherings
6. 27-day restriction on when an animal gathering may take place
7. Exemption for premises with a paved animal area
8. Exemption for sheep autumn breeding sales
9. Time limits
10. Change to the starting time of animal gatherings for the purpose of sale
11. Dedicated slaughter sales and dedicated slaughter collections
12. Duties on persons at an animal gathering
13. Restrictions following an animal gathering
14. Enforcement
15. Revocation

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8 ac 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Awst 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ond heb gynnwys buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;

ystyr "arwerthiant defaid magu yn yr hydref" ("*sheep autumn breeding sale*") yw crynhoad anifeiliaid a gynhelir rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr at y prif ddiben o werthu defaid bridio;

ystyr "crynhoad anifeiliaid" ("*animal gathering*") yw achlysur pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi ynghyd at un neu fwy o'r dibenion canlynol -

- (a) gwerthiant, sioe neu arddangosfa;
- (b) traddodi llwyth o anifeiliaid ymlaen o fewn Prydain Fawr;
- (c) archwiliad i gadarnhau bod gan yr anifeiliaid nodweddion brid penodol;

mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys llociau a chlwydi;

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(2);

mae i "man i anifeiliaid" ("*animal area*") yr ystyr a roddir yn erthygl 5(3)(c);

The Welsh Ministers, in exercise of the powers vested in them by sections 1, 7, 8 and 83 of the Animal Health Act 1981(1), make the following Order:

Title, commencement and application

1.-(1) The title of this Order is the Animal Gatherings (Wales) Order 2007.

(2) This Order comes into force on 14 August 2007.

(3) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2. In this Order-

"animals" ("*anifeiliaid*") means cattle (excluding bison and yak), deer, goats, sheep and pigs;

"animal area" ("*man i anifeiliaid*") has the meaning given in article 5(3)(c);

"animal gathering" ("*crynhoad anifeiliaid*") means an occasion at which animals are brought together for one or more of the following purposes-

- (a) a sale, show or exhibition,
- (b) onward consignment within Great Britain,
- (c) inspection to confirm the animals possess specific breed characteristics;

"approved disinfectant" ("*diheintydd a gymeradwywyd*") means a disinfectant approved under the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(2);

"equipment" ("*cyfarpar*") includes pens and hurdles;

"licensed premises" ("*mangre drwyddedig*") means premises licensed under article 5;

"paved" ("*palmantog*") means paved with cement, concrete, asphalt or other hard, impermeable material that is capable of being effectively cleansed and disinfected;

(1) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(2) O.S. 1978/32 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf o ran Cymru gan O.S. 2006/3166 (Cy.291).

(1) 1981 c.22. Functions of the Minister and the Secretary of State transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044. Functions of the National Assembly for Wales transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 of the Government of Wales Act 2006.

(2) S.I. 1978/32, as last amended as regards Wales by S.I. 2006/3166 (W.291).

ystyr "mangre drwyddedig" ("*licensed premises*") yw mangre a drwyddedwyd o dan erthygl 5;

ystyr "palmantog" ("*paved*") yw arwyneb o sment, concrid, asffalt neu ddeunydd caled anhydrin arall y gellir ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol.

Hysbysiadau a thrwyddedau

3.-(1) O ran hysbysiad neu drwydded o dan Gorchymyn hwn -

- (a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig;
- (b) gellir eu diwygio, eu hatal dros dro, neu eu dirymu drwy hysbysiad a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol; ac
- (c) cânt fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau y mae'r arolygydd milfeddygol yn barnu bod eu hangen i atal cyflwyno clefyd i'r fangre drwyddedig neu i atal lledaenu clefyd o fewn y fangre drwyddedig neu'r tu allan iddi.

(2) Ond nid yw'r erthygl hon yn gymwys i hysbysiad neu drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 8.

Eithriadau

4. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys-

- (a) os yr un person sy'n berchen ar bob anifail y daethpwyd ag ef i'r crynhoad;
- (b) os bydd yr anifeiliaid i gyd yn dod o un set o fangreoedd y mae Gweinidogion Cymru wedi ei awdurdodi fel grŵp meddiannaeth unigol o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(1); ac
- (c) os bydd y crynhoad anifeiliaid yn digwydd ar fangre y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arni neu'n ei meddiannu.

Defnyddio mangreoedd ar gyfer crynadau anifeiliaid

5.-(1) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw fangre ar gyfer crynhoad anifeiliaid oni bai bod y fangre honno wedi ei thrwyddedu i'r perwyl hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

- (2) Rhaid i gais am drwydded fod yn ysgrifenedig.
- (3) Rhaid i drwydded bennu-
 - (a) enw'r trwyddedai;
 - (b) y fangre lle y caniateir crynhoi'r anifeiliaid; ac
 - (c) y man y caniateir i'r anifeiliaid fynd iddo ("y man i anifeiliaid").

"sheep autumn breeding sale" ("*arwerthiant defaid magu yn yr hydref*") means an animal gathering held on a date between 1 August and 31 December for the primary purpose of the sale of breeding sheep.

Notices and licences

3.-(1) A notice or licence under this Order-

- (a) must be in writing;
- (b) may be amended, suspended or revoked by a notice issued by a veterinary inspector; and
- (c) may be subject to such conditions as the veterinary inspector considers necessary to control the introduction into or spread of disease within or from the licensed premises.

(2) But this article does not apply to a notice or licence granted by the Welsh Ministers under article 8.

Exceptions

4. This Order does not apply if-

- (a) all the animals brought to the animal gathering are owned by the same person;
- (b) all the animals come from one set of premises which the Welsh Ministers have authorised as a sole occupancy group under the Disease Control (Wales) Order 2003(1); and
- (c) the animal gathering takes place on premises owned or occupied by the owner of the animals.

The use of premises for animal gatherings

5.-(1) No person may use any premises for an animal gathering unless those premises are licensed for that purpose by a veterinary inspector.

- (2) An application for a licence must be in writing.
- (3) A licence must specify-
 - (a) the name of the licensee;
 - (b) the premises on which the animal gathering may take place; and
 - (c) the area to which animals may be given access ("the animal area").

(1) O.S. 2003/1966 (Cy.211), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/179 (Cy.30) ac O.S. 2006/1036 (Cy. 106).

(1) S.I. 2003/1966 (W.211) as amended by S.I. 2006/179 (W.30) and S.I. 2006/1036 (W. 106).

Cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gynnal crynhoad anifeiliaid

6. Yn ddarostyngedig i erthyglau 7 ac 8, ni chaiff neb ganiatáu crynhoad anifeiliaid ar fangre y mae anifeiliaid wedi cael eu cadw arni nes bydd 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers y diwrnod-

- (a) y gadawodd yr anifail olaf y fangre honno; a
- (b) ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre, pan fydd yr holl gyfarpar y daeth yr anifeiliaid i gysylltiad ag ef wedi ei lanhau fel nad oes unrhyw halogiad gweladwy.

Esemptiad ar gyfer mangre sydd â man palmantog i anifeiliaid

7.-(1) Nid yw'r cyfyngiadau yn erthygl 6 yn gymwys os yw'r man i anifeiliaid yn y fangre drwyddedig wedi cael ei balmantu, ac os yw wedi cael ei lanhau a'i ddiheintio a bod gwastraff wedi cael ei waredu oddi yno yn unol â'r erthygl hon cyn bod crynhoad pellach o anifeiliaid yn cael ei gynnal.

- (2) O ran y gwaith glanhau a diheintio-
 - (a) rhaid iddo beidio â dechrau nes bydd pob anifail wedi ei symud o'r rhan honno o'r man i anifeiliaid sy'n cael ei glanhau a'i diheintio; a
 - (b) rhaid iddo gael ei gwblhau ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre drwyddedig a chyn i grynhoad anifeiliaid gael ei gynnal eto ar y fangre.

(3) Rhaid ysgubo neu grafu'n lân bob rhan o'r man i anifeiliaid (yn cynnwys unrhyw gyfarpar), a'i glanhau drwy ei golchi a'i diheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

(4) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr holl fwyd anifeiliaid y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, a'r holl sarn, y dom a'r deunydd arall sy'n dod o anifeiliaid ac halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid sydd yn y man i anifeiliaid-

- (a) yn cael eu difa,
- (b) yn cael eu trin er mwyn sicrhau nad oes perygl y byddant yn trosglwyddo clefydau; neu
- (c) yn cael eu gwaredu fel nad yw anifeiliaid yn gallu mynd atynt,

cyn gynted ag y bo modd a chyn i anifeiliaid gael mynd i mewn i'r fangre drwyddedig eto.

(5) Os, ar ôl yr achlysur diwethaf pan gafodd y man i anifeiliaid ei lanhau a'i ddiheintio yn unol â'r erthygl hon, y'i halogir â thom anifeiliaid neu ddeunydd arall sy'n dod o anifeiliaid neu unrhyw halogyn sy'n dod o anifeiliaid, rhaid ysgubo neu grafu'n lân y man i anifeiliaid neu'r rhannau hynny ohono sydd wedi eu halogi felly, a'u glanhau drwy olchi a thrwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd cyn i unrhyw anifail gael mynd i'r fangre drwyddedig eto.

27-day restriction on when an animal gathering may take place

6. Subject to articles 7 and 8, no person may allow an animal gathering to take place on premises on which animals have been kept until 27 days have passed from the day on which-

- (a) the last animal left those premises; and
- (b) all equipment to which animals had access has been cleansed of visible contamination, after the last animal has left the premises.

Exemption for premises with a paved animal area

7.-(1) The restriction in article 6 does not apply if the animal area of the licensed premises is paved, and is cleansed and disinfected and waste is disposed of in accordance with this article before a further animal gathering is held.

- (2) The cleansing and disinfection-
 - (a) must not begin until all animals have been removed from the part of the animal area to be cleansed and disinfected; and
 - (b) must be completed after the last animal has left the licensed premises and before an animal gathering is held on the premises again.

(3) All parts of the animal area (including any equipment) must be swept or scraped clean and then cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant.

(4) The licensee must ensure that all feedingstuffs to which animals had access, and all bedding, excreta, other material of animal origin and other contaminants derived from animals in the animal area are-

- (a) destroyed;
- (b) treated so as to remove the risk of transmission of disease; or
- (c) disposed of so that animals do not have access to them,

as soon as possible and before animals are allowed to enter the licensed premises again.

(5) If, following the last occasion on which the animal area was cleansed and disinfected in accordance with this article, it becomes contaminated with animal excreta or other material of animal origin or any contaminant derived from animals, then the animal area or those parts of it that have become so contaminated must be swept or scraped clean and then cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant before any animals are allowed on to the licensed premises again.

(6) Pan na fo cyfres o grynoadau anifeiliaid, sy'n cael eu cynnal ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid, yn para'n hwy na chyfanswm o 48 awr, caiff y crynoadau hynny eu trin fel un crynhoad anifeiliaid.

Esemptiad ar gyfer arwerthiannau defaid magu yn yr hydref

8.-(1) Os bydd gan fangre drwyddedig fan palmantog i anifeiliaid, yn achos arwerthiant defaid magu yn yr hydref, caiff y trwyddedai wneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded ychwanegol-

- (a) i ganiatáu bod defaid yn yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref yn gallu mynd y tu allan i'r man palmantog i anifeiliaid; a
- (b) i gynnal crynhoad anifeiliaid pellach o fewn 27 o ddiwrnodau o ddiwedd yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref.

(2) Rhaid i'r drwydded bennu'r man y tu allan i'r man palmantog i anifeiliaid y caiff y defaid fynd iddo a'r dyddiad pan ganiateir y mynediad hwnnw.

(3) Rhaid i'r drwydded beidio â chaniatáu mynediad i unrhyw ran o'r man y tu allan i'r man palmantog fwy nag unwaith bob 27 o ddiwrnodau.

(4) Rhaid i'r drwydded bennu'r mesurau bioddiogelwch y mae'n rhaid eu rhoi ar waith.

(5) Nid yw'r drwydded yn effeithio ar unrhyw grynhoad anifeiliaid a gynhelir yn y cyfnod o 27 o ddiwrnodau ar ôl diwedd yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref sydd yn digwydd yn unig ar y man palmantog i anifeiliaid y mae erthygl 7 yn gymwys iddo.

(6) Rhaid i unrhyw gais a wneir i Weinidogion Cymru o dan baragraff (1)-

- (a) bod yn ysgrifenedig;
- (b) datgan dyddiad arfaethedig yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref;
- (c) datgan dyddiad arfaethedig unrhyw grynhoad anifeiliaid y mae'r trwyddedai am ei gynnal o fewn 27 o ddiwrnodau o ddiwedd yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref a natur y crynhoad anifeiliaid hwnnw; ac
- (ch) dod i law Gweinidogion Cymru o leiaf bedair wythnos cyn dechrau'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref.

(7) O ran unrhyw drwydded a ddyroddir o dan yr erthygl hon-

- (a) rhaid iddi fod yn ysgrifenedig; a
- (b) caniateir ei diwygio, ei hatal dros dro, neu ei dirymu drwy hysbysiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(6) Where there is a series of animal gatherings on premises with a paved animal area that last no longer than 48 hours in total, the series will be treated as one animal gathering.

Exemption for sheep autumn breeding sales

8.-(1) If licensed premises have a paved animal area, in the case of a sheep autumn breeding sale, the licensee may apply to the Welsh Ministers for an additional licence-

- (a) to permit sheep at the sheep autumn breeding sale to have access outside the paved animal area; and
- (b) to hold a further animal gathering within 27 days of the end of the sheep autumn breeding sale.

(2) The licence must specify the area outside the paved animal area to which the sheep may have access and the date on which that access is permitted.

(3) The licence must not permit access to any part of the area outside the paved area more than once every 27 days.

(4) The licence must specify the biosecurity measures that must be taken.

(5) The licence does not affect any animal gathering held in the 27-day period after the end of the sheep autumn breeding sale that only takes place on the paved animal area to which article 7 applies.

(6) Any application made to the Welsh Ministers under paragraph (1) must-

- (a) be in writing;
- (b) state the proposed date of the sheep autumn breeding sale;
- (c) state the proposed date of any animal gathering that the licensee wishes to hold within 27 days of the end of the sheep autumn breeding sale and the nature of that animal gathering; and
- (d) be received by the Welsh Ministers at least four weeks prior to the beginning of the sheep autumn breeding sale.

(7) Any licence issued under this article-

- (a) must be in writing; and
- (b) may be amended, suspended or revoked by a notice issued by the Welsh Ministers.

Terfynau amser

9.-(1) Rhaid i grynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid neu arwerthiant defaid magu yn yr hydref a drwyddedwyd o dan erthygl 8 beidio â phara am fwy na 48 awr, gan ddechrau ganol dydd.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol drwy hysbysiad estyn cyfnod crynhoad anifeiliaid o dan baragraff (1) os yw'r arolygydd milfeddygol wedi'i fodloni-

- (a) bod angen yr estyniad er lles yr anifeiliaid; neu
- (b) mai bach yw'r perygl o gyflwyno clefydau yn y gwerthiant ac o ledaenu clefydau wedi hynny.

(3) Yn achos crynhoad anifeiliaid nad yw paragraff (1) yn gymwys iddo, os un o ddibenion y crynhoad yw crynhoi anifeiliaid ynghyd i'w traddodi ymlaen o fewn Prydain Fawr, rhaid i'r crynhoad beidio â phara am fwy na 48 awr, gan ddechrau ganol dydd.

Newid ar amser dechrau crynnoadau anifeiliaid at ddibenion gwerthu

10.-(1) Yn achos crynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid neu arwerthiant defaid magu yn yr hydref a drwyddedwyd o dan erthygl 8, caiff y trwyddedai newid yr amser dechrau am ganol dydd, drwy o leiaf bythefnos ymlaen llaw-

- (a) hysbysu Gweinidogion Cymru yn ogystal â'r awdurdod lleol o ddyddiad ac amser dechrau a diweddur crynhoad anifeiliaid neu'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref; a
- (b) rhoi cyhoeddusrwydd i'r crynhoad anifeiliaid neu'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref fel y bydd y sawl sy'n dod ag anifeiliaid yno yn cael gwybod am yr amser dechrau a diweddur newydd.

(2) Os yw'r crynnoadau anifeiliaid yn un o gyfres o grynnoadau o'r fath, caniateir i'r hysbysiad a'r cyhoeddusrwydd fod ar gyfer y gyfres honno.

Gwerthiant cigydda dynodedig a chasgliadau cigydda dynodedig

11.-(1) Ni chaiff neb gynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig onid yw ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid.

(2) Ni chaiff neb gynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig fel rhan o grynhoad anifeiliaid sy'n cael ei gynnal at unrhyw ddiben arall.

Time limits

9.-(1) An animal gathering for the purpose of a sale (whether or not sale is the sole purpose) held on premises with a paved animal area or a sheep autumn breeding sale licensed under article 8 must not last for more than 48 hours, starting at midday.

(2) A veterinary inspector may by notice extend the period of the animal gathering under paragraph (1) if he or she is satisfied that-

- (a) the extension is necessary for animal welfare reasons; or
- (b) the risk of the introduction of disease into the sale and its subsequent dissemination is low.

(3) In the case of an animal gathering to which paragraph (1) does not apply, if one of the purposes of the gathering is the bringing together of animals for onward consignment within Great Britain, the gathering must not last for more than 48 hours, starting at midday.

Change to the starting time of animal gatherings for the purpose of sale

10.-(1) In the case of an animal gathering for the purposes of a sale (whether or not sale is the sole purpose) held on premises with a paved animal area or a sheep autumn breeding sale licensed under article 8, the licensee may change the midday starting time by, at least two weeks in advance-

- (a) notifying both the Welsh Ministers and the local authority of the date and starting and ending time of the animal gathering or sheep autumn breeding sale; and
- (b) publicising the animal gathering or sheep autumn breeding sale so that those bringing animals to it are made aware of the new starting and ending time.

(2) If the animal gathering is one of a series of such gatherings, the notification and publication may be for that series.

Dedicated slaughter sales and dedicated slaughter collections

11.-(1) No person may hold a dedicated slaughter sale or a dedicated slaughter collection other than on premises with a paved animal area.

(2) No person may hold a dedicated slaughter sale or a dedicated slaughter collection as part of an animal gathering held for any other purpose.

(3) Rhaid i'r trwyddedai hysbysu Gweinidogion Cymru a'r awdurdod lleol fod y trwyddedai yn bwriadu cynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig o leiaf 3 diwrnod cyn y gwerthiant neu'r casgliad.

(4) Rhaid i'r trwyddedai roi cyhoeddusrwydd i'r crynhoad anifeiliaid fel bod y sawl sy'n dod ag anifeiliaid iddo yn cael gwybod ei fod yn werthiant cigydda dynodedig neu'n gasgliad cigydda dynodedig.

(5) Yn yr erthygl hon-

- (a) ystyr "gwerthiant cigydda dynodedig" yw achlysur pan grynhoir anifeiliaid ynghyd at ddibenion gwerthiant cyn eu traddodi ymlaen yn uniongyrchol i'w cigydda ym Mhrydain Fawr;
- (b) ystyr "casgliad cigydda dynodedig" yw achlysur pan grynhoir anifeiliaid ynghyd at ddibenion eu traddodi ymlaen yn uniongyrchol i'w cigydda ym Mhrydain Fawr.

Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid

12. Pan gynhelir crynhoad anifeiliaid (heblaw mewn sioe neu arddangosfa) mae darpariaethau'r Atodlen (gofynion ynghylch crynhoad anifeiliaid) yn effeithiol.

Cyfngiadau yn dilyn crynhoad anifeiliaid

13.-(1) Mae darpariaethau'r erthygl hon yn gymwys unwaith y bydd yr anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid wedi gadael y fangre drwyddedig.

(2) Ni chaiff neb ganiatáu i anifeiliaid fynd ar y fangre drwyddedig hyd nes bydd pob cyfarpar y daeth yr anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef yn y crynhoad wedi'i lanhau fel nad oes arno halogiad gweladwy.

(3) Ni chaiff neb symud o'r fangre drwyddedig unrhyw gyfarpar y daeth anifeiliaid mewn crynhoad anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef-

- (a) onid yw'r halogion gweladwy wedi eu glanhau oddi ar y cyfarpar ac onibai bod cyfnod o 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers i'r anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid adael y fangre drwyddedig; neu
- (b) oni chafodd y cyfarpar ei ysgubo a'i grafu'n lân, ac yna ei lanhau drwy ei olchi a'i ddiheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

Gorfodi

14.-(1) Rhaid i'r Gorchymyn hwn gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, o ran achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, mai Gweinidogion Cymru, ac nid yr

(3) The licensee must notify the Welsh Ministers and the local authority that he or she intends to hold a dedicated slaughter sale or a dedicated slaughter collection at least 3 days before the sale or collection.

(4) The licensee must publicise the animal gathering so that those bringing animals to it are made aware that it is a dedicated slaughter sale or dedicated slaughter collection.

(5) In this article-

- (a) a "dedicated slaughter sale" means an animal gathering for the purpose of a sale before onward consignment direct to slaughter in Great Britain;
- (b) a "dedicated slaughter collection" means an animal gathering for the purpose of onward consignment direct to slaughter in Great Britain.

Duties on persons at an animal gathering

12. When an animal gathering (other than for a show or exhibition) is taking place the provisions of the Schedule (requirements at an animal gathering) have effect.

Restrictions following an animal gathering

13.-(1) The provisions of this article apply once the last animal at an animal gathering has left the licensed premises.

(2) No person may allow animals on to the licensed premises until all equipment to which animals at the gathering had access has been cleansed of visible contamination.

(3) No person may remove from the licensed premises any equipment to which animals at the gathering had access unless-

- (a) the equipment has been cleansed of visible contamination and a period of 27 days has elapsed since the last animal at the animal gathering has left the licensed premises; or
- (b) the equipment has been swept or scraped clean and then cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant.

Enforcement

14.-(1) This Order must be enforced by the local authority.

(2) The Welsh Ministers may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that an enforcement duty imposed on a local authority

awdurdod lleol, sydd i weithredu'r swyddogaeth orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan yr erthygl hon.

Dirymu

15. Dirymir Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2004⁽¹⁾.

under this article will be discharged by the Welsh Ministers and not by the local authority.

Revocation

15. The Animal Gatherings (Wales) Order 2004⁽¹⁾ is revoked.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

14 Awst 2007

14 August 2007

⁽¹⁾ O.S. 2004/1803 (Cy.191).

⁽¹⁾ S.I. 2004/1803 (W.191).

Erthygl 12

Article 12

Gofynion mewn crynhoad anifeiliaid

Requirements at an animal gathering

Dyletswyddau trwyddedai

1.-(1) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod unrhyw berson sy'n mynd ar y fangre drwyddedig yn cael gwybod bod y fangre'n drwyddedig o dan y Gorchymyn hwn, pa un ai trwy gyfrwng system o hysbysiadau y gwneir hynny neu mewn rhyw ffordd arall.

(2) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu'r canlynol wrth yr allanfydd o'r man i anifeiliaid ac wrth unrhyw fan llwytho a dadlwytho-

- (a) baddonau traed sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwywyd; a
- (b) cyfleusterau ar gyfer tynnu oddi ar esgidiau laid, tom anifeiliaid ac unrhyw halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid cyn defnyddio'r baddonau traed.

(3) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu cyfleusterau ar y fangre drwyddedig ar gyfer newid, glanhau a diheintio dillad a gwaredu dillad y gellir eu taflu.

(4) Rhaid i'r trwyddedai -

- (a) sicrhau mai yn y man i anifeiliaid yn unig y caiff yr anifeiliaid eu dadlwytho a'u llwytho; a
- (b) sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw anifeiliaid yn gadael y man i anifeiliaid ac eithrio ar gerbyd.

(5) Pan gynhelir crynhoad anifeiliaid y mae'r terfynau amser yn erthyglau 9 a 10 yn gymwys iddo, rhaid i'r trwyddedai sicrhau-

- (a) na ddeuir â'r un anifail i'r fangre cyn dechrau'r crynhoad anifeiliaid; a
- (b) bod pob anifail yn cael ei symud o'r fangre erbyn diwedd y crynhoad anifeiliaid.

Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid

2.-(1) Ni chaiff neb fynd ar fangre drwyddedig yn gwisgo dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi'u halogi â llaid, tom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid.

(2) Os bydd person yn y man i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi'u halogi â llaid, tom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid, rhaid iddo ar ei union wrth adael y man i anifeiliaid, lanhau halogi garw oddi ar ei ddillad allanol neu ei esgidiau (onid ydynt i gael eu

Duties on a licensee

1.-(1) The licensee must ensure that any person entering the licensed premises is made aware that the premises are licensed under this Order, whether by means of a system of notices or otherwise.

(2) The licensee must provide the following at exits from the animal area and at any loading and unloading bay -

- (a) footbaths containing approved disinfectant; and
- (b) facilities for removing from footwear mud, animal excreta and any other contaminants derived from animals prior to use of the footbaths.

(3) The licensee must provide facilities on the licensed premises for changing, cleansing and disinfecting clothes and disposing of disposable clothes.

(4) The licensee must-

- (a) ensure that animals are unloaded from, and loaded onto, vehicles only in the animal area; and
- (b) ensure, so far as is reasonably practicable, that animals do not leave the animal area except on a vehicle.

(5) In the case of an animal gathering to which the time limits in articles 9 and 10 apply, the licensee must ensure that -

- (a) no animal is brought on to the premises before the start of the animal gathering; and
- (b) every animal is removed from the premises by the end of the animal gathering.

Duties on persons attending the animal gathering

2.-(1) No person may enter licensed premises wearing outer clothing or footwear visibly contaminated with mud, animal excreta or any other contaminant derived from animals.

(2) If a person in the animal area is wearing outer clothing or footwear visibly contaminated with mud, animal excreta or any other contaminant derived from animals, on leaving the animal area he or she must immediately cleanse that outer clothing or footwear of gross contamination (unless it is to be disposed of) and

gwaredu) a naill ai-

- (a) eu diheintio;
- (b) newid i ddillad neu esgidiau glân;
- (c) eu gwaredu; neu
- (ch) ymadael â'r fangre drwyddedig.

(3) Os bydd person y tu allan i'r man i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi eu halogi â llaid, tom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid, caiff arolygydd gyflwyno iddo hysbysiad yn rhoi iddo'r dewis a hynny ar ei union-

- (a) glanhau ei ddillad allanol neu ei esgidiau;
- (b) newid i ddillad neu esgidiau glân;
- (c) gwaredu dillad neu esgidiau y gellir eu taflu; neu
- (ch) ymadael â'r fangre drwyddedig.

Esgidiau i'w gwisgo yn y man i anifeiliaid

3. Rhaid i unrhyw berson sy'n ymadael â'r man i anifeiliaid, gan ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarperir, dynnu'r llaid, tom anifeiliaid ac unrhyw halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid oddi ar ei esgidiau ac yna diheintio'r esgidiau hynny yn y baddon traed a ddarperir sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwywyd.

Cerbydau

4.-(1) Ni chaiff neb ddod ag unrhyw gerbyd na chyfarpar a gludir ar y cerbyd hwnnw ar y fangre drwyddedig na mynd â hwy oddi yno os gellir gweld eu bod wedi'u halogi â thom anifeiliaid neu unrhyw halogiad arall sy'n dod o anifeiliaid.

(2) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd neu gyfarpar a gludir ar y cerbyd hwnnw sy'n dod ar fangre drwyddedig -

- (a) os yw'r dom anifeiliaid neu halogiad arall yn dod yn unig o'r anifeiliaid a gludir ar y cerbyd pan ddaethpwyd â'r cerbyd ar y fangre drwyddedig; neu
- (b) yn unswydd er mwyn eu glanhau a'u diheintio, os eir â hwy yn unionsyth i'r cyfleusterau glanhau a diheintio yn ddi-oed ar ôl cyrraedd y fangre.

(3) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd neu gyfarpar a gludir ar y cerbyd hwnnw sy'n ymadael â'r fangre drwyddedig-

- (a) os yw'r dom anifeiliaid neu halogiad arall yn dod yn unig o'r anifeiliaid a ddadlwythwyd o'r cerbyd ar y fangre drwyddedig; neu
- (b) os yw'r dom anifeiliaid neu halogiad arall yn dod yn unig o'r anifeiliaid a lwythwyd ar y cerbyd ar y fangre drwyddedig.

either-

- (a) disinfect it;
- (b) change into clean clothing or footwear;
- (c) dispose of it; or
- (d) leave the licensed premises.

(3) If a person outside the animal area is wearing outer clothing or footwear visibly contaminated with mud, animal excreta or any other contaminant derived from animals, an inspector may serve on him or her a notice giving him or her the option of immediately-

- (a) cleansing his or her outer clothing or footwear;
- (b) changing into clean clothing or footwear;
- (c) disposing of disposable clothing or footwear; or
- (d) leaving the licensed premises.

Footwear in the animal area

3. Any person leaving the animal area must, using the facilities provided, remove mud, animal excreta and any other contaminant derived from animals from his or her footwear and then disinfect that footwear in the footbath provided containing approved disinfectant.

Vehicles

4.-(1) No person may bring on to or take from the licensed premises any vehicle or equipment carried with that vehicle that is visibly contaminated with animal excreta or any other contaminant derived from animals.

(2) This paragraph does not apply to any vehicle or equipment carried with that vehicle coming on to the licensed premises -

- (a) if the excreta or other contaminant is only from animals being carried on the vehicle at the time it is brought on to the licensed premises; or
- (b) solely for cleansing and disinfection, if taken directly to the cleansing and disinfection facilities immediately upon arrival.

(3) This paragraph does not apply to any vehicle or equipment carried with that vehicle leaving the licensed premises-

- (a) if the excreta or other contaminant is only from animals which have been unloaded from the vehicle on the licensed premises; or
- (b) if the excreta or other contaminant is only from animals which were loaded on to the vehicle on the licensed premises.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2007 No. 2425 (W.201)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Animal Gatherings (Wales)
Order 2007

○

£3.00

W156/10/07

ON